***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 995 (Cy.148)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008.**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 7(ch) yn lle "31 Mawrth 2012" rhodder "30 Medi 2012".

(3) Yn erthygl 11(d) yn lle "31 Mawrth 2012" rhodder "30 Medi 2012".

---

(**1**) 1988 p.41. Cafodd adran 43 ei diwygio gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 ac Atodlen 1 iddi (p.29); adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau'r Post 2000 ac Atodlen 8 iddi (p.26); adrannau 1 a 3 o Ddeddf Ardrethu (Cyn Fangreoedd Amaethyddol a Siopau Gwledig) 2001 (p.14); adrannau 61, 63 a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26); ac adran 1177 o Ddeddf y Dreth Gorfforaethau 2010 ac Atodlen 1 iddi (p.4). Mewnosodwyd adran 43(4B) gan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Cafodd adran 44 ei diwygio gan adrannau 139 a 194 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac Atodlenni 5 a 12 iddi (p.42); gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); a chan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2008/2770 (Cy.246).

(4) Yn erthygl 11(dd) yn lle "31 Mawrth 2012" rhodder "30 Medi 2012".

(5) Yn erthygl 11(e) yn lle "hyd a chan gynnwys 31 Mawrth 2012" rhodder "am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008 ac sy'n gorffen ar 30 Medi 2010,".

(6) Ym mhennawd erthygl 11A (Y swm o E rhwng 1 Hydref 2010 a 30 Medi 2011) yn lle "30 Medi 2011" rhodder "30 Medi 2012".

(7) Yn erthygl 11A(2) yn lle "30 Medi 2011" rhodder "30 Medi 2012".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

29 Mawrth 2011

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ebrill 2011 ac mae'n gymwys yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") drwy ymestyn y ddarpariaeth i gynyddu lefel rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i 30 Medi 2012. Dim ond i gategorïau penodol o drethdalwr a gwmpesir gan Orchymyn 2008 y mae'r ymestyniad i gael rhyddhad yn gymwys.